NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Ail-leinio mwcosa'r dwodenwm yn endosgopaidd at ddibenion ymwrthedd i inswlin mewn diabetes math 2

16 Mai 2024

Dim ond fel rhan o astudiaeth ymchwil y gellir rhoi'r driniaeth hon. Mae hyn am nad oes digon o dystiolaeth ynglŷn â pha mor dda y mae'r driniaeth hon yn gweithio na pha mor ddiogel ydyw.

Dylai eich gweithiwr gofal iechyd proffesiynol siarad â chi am yr ymchwil.

Gall diabetes math 2 ddigwydd pan na fydd y celloedd yn y corff yn ymateb yn iawn i inswlin (ymwrthedd i inswlin). Mae'r dwodenwm (y rhan gyntaf o'r coluddyn bach) yn chwarae rôl bwysig mewn sensitifrwydd inswlin a rheoleiddio siwgr y gwaed. Un ffactor y credir ei fod yn cyfrannu at ymwrthedd i inswlin yw nad yw'r dwodenwm yn gweithio'n iawn.

Yn y driniaeth hon, caiff endosgop (tiwb hir, tenau a hyblyg gyda chamera a golau bach ar y pen) a chathetr balŵn (tiwb silicon meddal) eu pasio drwy'r geg i mewn i'r dwodenwm. Wedyn caiff y balŵn ei lenwi ag aer er mwyn agor mwcosa'r dwodenwm (y leinin). Wedyn, gan ddefnyddio'r endosgop i ddod o hyd i'r mwcosa, defnyddir gwres i'w ddinistrio. Bydd hyn yn annog ail-leinio (bydd leinin newydd yn tyfu). Y nod yw gwneud i'r dwodenwm weithio'n well drwy wneud y mwcosa'n fwy sensitif (llai o ymwrthedd) i inswlin.

## A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Dylech fod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau am eich gofal.

Dylai eich gweithiwr iechyd proffesiynol esbonio risgiau a manteision y driniaeth hon ac egluro sut y'i gwneir. Dylai drafod eich opsiynau a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Dylai gynnig rhagor o wybodaeth i chi am y driniaeth. Gellir cynnwys eich teulu neu'ch gofalwyr yn y broses os hoffech hynny, neu os bydd angen eu cynnwys.

Gofynnir i chi benderfynu a ydych yn cytuno (rhoi cydsyniad) i gael y driniaeth. Dysgwch ragor am roi cydsyniad i driniaethau ar wefan y GIG.

## Rhai cwestiynau i feddwl amdanynt

- Faint o apwyntiadau y bydd eu hangen arnaf?
- Beth yw'r manteision posibl? Pa mor debygol ydw i o'u cael?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgil-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- A fydd yn rhaid i mi aros yn yr ysbyty?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd yn gweithio neu os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth fydd yn digwydd os na fyddaf am gael y driniaeth?
- A oes triniaethau eraill ar gael?

## Gwybodaeth a chymorth

Gall tudalen we y GIG ar ddiabetes math 2 fod yn lle da i gael gwybod mwy.

- Mae gwybodaeth NICE am ganllawiau IechydTech yn esbonio beth yw IechydTech a sut rydym yn eu hasesu.
- Mae gwybodaeth NICE am argymhellion ar gyfer IechydTech yn esbonio beth yw dim ond fel rhan o astudiaeth ymchwil.

Gall Diabetes UK (0345 123 2399) roi cyngor a chymorth i chi.

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich tîm Healthwatch lleol.

ISBN: 978-1-4731-8978-2